BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# CYDWEITHREDIAD RHANBARTHOL GYDA RHCT, CAERDYDD A PHEN-Y-BONT AR OGWR

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP20A

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Crynodeb Gweithredol**

i. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r cydweithrediad rhanbarthol a wnaed gan Gyngor Bro Morgannwg gyda'i Awdurdodau Lleol cyfagos – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Caerdydd, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Pwrpas y papur hwn yw sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) wedi cael ei lywio gan waith rhanbarthol a'i fod yn gydnaws ac yn ategu CDLlau awdurdodau cyfagos.

ii. Mae'r papur yn dangos ymrwymiad Bro Morgannwg i ymagwedd ranbarthol tuag at ddarpariaeth tai a thwf cyflogaeth. Ceir tystiolaeth o'r ymrwymiad hwn trwy gyfranogiad gweithredol mewn grwpiau cynllunio rhanbarthol allweddol, yn benodol Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDDdC) a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru (CSCDDdC), sydd wedi sicrhau bod sail dystiolaeth CDLlN y Fro yn gyson ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth.

iii. Mae hyn yn cynnwys prosiectau rhanbarthol, fel Asesiad Rhanbarthol o Dwf ac Ymfudo yn y Dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC), a asesodd botensial twf swyddi a phoblogaeth P-RC i benderfynu sut y gall awdurdodau cynllunio lleol gyfrannu at y twf hwn a chyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Rhanbarthol hefyd wedi cael ei gynhyrchu trwy'r grwpiau cynllunio rhanbarthol. Mae methodolegau cyffredin hefyd wedi deillio o ymgysylltu â'r grwpiau cynllunio rhanbarthol, sy'n cwmpasu meysydd pwnc allweddol fel nodi lletem las, arfarniadau aneddiadau cynaliadwy, a modelau hyfywedd datblygu.

iv. Mae Datganiadau Safbwynt ar y Cyd wedi cael eu paratoi gydag awdurdodau cyfagos, sydd ynghlwm wrth atodiadau'r papur hwn. Mae'r Datganiadau hyn yn ystyried sawl perthynas drawsffiniol allweddol, fel poblogaeth a mudo, gofynion tai, patrymau cymudo a darpariaeth tir cyflogaeth. Gyda'i gilydd, mae canfyddiadau pob Datganiad Safbwynt ar y Cyd yn ystyried bod strategaeth twf tai a chyflogaeth CDLlN y Fro yn ategol ac yn gydnaws â CDLlN ei awdurdodau lleol cyfagos, ac i'r gwrthwyneb.

v. Wrth wneud hynny, mae'r papur yn mynd i'r afael â pherfformiad y CDLlN yn erbyn *Prawf Cadernid 1: A yw'r Cynllun yn Addas? - A yw'n gydnaws â chynlluniau awdurdodau cyfagos.*

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

